**GRŴP IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**ADRODDIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL AR WEITHREDU CYNLLUN BUSNES GWEINIDOGION CYMRU 2015 / 2016**

**Swyddogion Arweiniol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Enwau: Tom James, Pennaeth Arloesi ac Ymgysylltu â'r Diwydiant, Technoleg, Strategaeth ac Arloesi mewn Gofal Iechyd

**UBC:** Ifan Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Arloesi mewn Gofal Iechyd

**Manylion cyswllt:** Thomas.James@wales.gsi.gov.uk
03000 253799

## CYFLWYNIAD

Mae Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru, sy'n gynllun statudol o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Diffinnir 'partneriaid cymdeithasol' yng Nghynllun Busnes Gweinidogion Cymru fel 'cymdeithasau busnesau a chyflogwyr, undebau llafur a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli'. Prif Weinidog Cymru sy'n cadeirio Cyngor Adnewyddu'r Economi sy'n llywio'r gwaith hwn ac sydd hefyd yn ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi gweithgarwch ymgysylltu partneriaid cymdeithasol.

Mae'r adroddiad diweddaru blynyddol hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i Brif Weinidog Cymru a Chyngor Datblygu'r Economi am weithgarwch y mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (IGC) wedi ymgymryd ag ef mewn perthynas â gofynion Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru rhwng mis Hydref 2015 a diwedd mis Rhagfyr 2016.

Mae'r tîm Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi arwain y gwaith o lunio'r adroddiad hwn, sy'n dilyn fformatau blaenorol a gyflwynwyd yn 2013/14 a 2014/15. Casglwyd y wybodaeth drwy gysylltu â'r timau o fewn Grŵp IGC rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2017.

Cyflwynir yr adroddiad diweddaru blynyddol hwn yng nghyfarfod Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol Grŵp IGC cyn ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'w gymeradwyo.

## GWEITHGARWCH – YMGYSYLLTIAD GRŴP IGC Â GRWPIAU PENODOL O BARTNERIAID CYMDEITHASOL

- Y **Gymdeithas Fferyllol Frenhinol** yw'r corff proffesiynol ar gyfer fferyllwyr a fferylliaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfarfod â'r Gymdeithas yn flynyddol i drafod materion allweddol a chael y wybodaeth ddiweddaraf amdanynt,

gyda'r timau polisi priodol yn ymgysylltu'n fwy rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Phrif Swyddog Fferyllol y Gymdeithas a swyddogion i drafod y gwaith o ddatblygu'r proffesiwn fferylliaeth. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cymryd rhan yn y rhaglen Ail-gydbwyso Deddfwriaeth Meddyginiaethau a Rheoleiddio Fferylliaeth ar lefel y DU.

- Mae **Fforwm Partneriaeth Cymru** yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisïau sy'n ymwneud â'r gweithle ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cynhelir prif gyfarfodydd y Fforwm bedair gwaith y flwyddyn, ac mae ei Grŵp Busnes yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn hefyd. Mae'n ymwneud â nifer o faterion polisi pwysig fel yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sefydlu Addysg Iechyd Cymru a datblygu'r Bil Undebau Llafur.

- Mae'r **Cyngor Fferyllol Cyffredinol**, sy'n gorff annibynnol, yn gyfrifol am reoleiddio dros 70,000 o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cyfarwyddwr y Cyngor yng Nghymru yn cysylltu'n rheolaidd â'r Tîm Fferylliaeth mewn perthynas â: datblygu'r fframwaith archwilio newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban; ail-gydbwyso deddfwriaeth meddyginiaethau a rheoleiddio fferylliaeth a moderneiddio'r rhaglen gyrfaoedd ac addysg fferylliaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Swyddog Fferyllol a swyddogion i drafod materion rheoleiddio. Mae'r Cyngor yn ymwneud â bwrdd rhaglen Ail-gydbwyso Deddfwriaeth Meddyginiaeth a Rheoleiddio Fferylliaeth y DU ("Ail-gydbwyso"), a arweinir gan yr Adran Iechyd. Mae gwaith y rhaglen hon yn arwain at gyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth y DU.

- Mae **Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain** yn cynrychioli cwmnïau fferyllol y DU. Mae aelodau'r Gymdeithas yn cyflenwi 90 y cant o'r holl feddyginiaethau a ddefnyddir gan y GIG ac yn datblygu ac yn ymchwilio i dros ddwy ran o dair o'r meddyginiaethau sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Swyddog Fferyllol yn cyfarfod â'r Gymdeithas i drafod materion fel y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol a mynediad at feddyginiaethau newydd. Mae timau polisi fel y tîm Arloesi mewn Gofal Iechyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas ar brosiectau ymgysylltu â diwydiant y GIG.

- **Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)** Mae Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Swyddog Meddygol yn cyfarfod â NICE yn flynyddol yn unol â'u rôl i wella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r GIG a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyhoeddus eraill er mwyn: rhoi canllawiau a chyngor yn seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr iechyd, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol; datblygu safonau ansawdd a metrigau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau iechyd, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol; a darparu amrywiaeth o wasanaethau gwybodaeth i gomisiynwyr, ymarferwyr a rheolwyr ym mhob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mae **Fferylliaeth Gymunedol Cymru** yn cynrychioli fferyllfeydd yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau'r GIG mewn cymunedau ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau. Mae'r sefydliad wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at y gwaith o ddatblygu prosiect Dewis Fferyllfa.

  Mae'r sefydliad yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Swyddog Fferyllol a swyddogion (o leiaf bob chwarter) i drafod a negodi telerau'r fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol yng Nghymru.

- Mae **Canolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru** yn uned arbenigol ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n darparu hyfforddiant proffesiynol i fferyllwyr drwy brif raglen sy'n cynnwys digwyddiadau byw, dysgu o bell ac e-ddysgu. Mae Grŵp IGC yn cynnal cyfarfodydd â'r Ganolfan ddwywaith y flwyddyn i drafod sut mae'n mynd ati i ddarparu hyfforddiant fferylliaeth yng Nghymru drwy gyrsiau ar-lein ac wyneb yn wyneb, cynnal cofnodion o gymwysterau fferylliaeth a darparu cynrychiolaeth gywir o'r Gweithlu Fferylliaeth yng Nghymru. Mae'r gangen fferylliaeth yn cynnal cyfarfodydd â'r Ganolfan ddwywaith y flwyddyn i drafod sut mae'n mynd ati i ddarparu hyfforddiant fferylliaeth yng Nghymru drwy gyrsiau ar-lein ac wyneb yn wyneb, cynnal cofnodion o gymwysterau fferylliaeth a darparu cynrychiolaeth gywir o'r Gweithlu Fferylliaeth yng Nghymru.

- **Cymdeithas Feddygol Prydain** yw'r corff cynrychioliadol a'r undeb llafur i feddygon yn genedlaethol ac yn lleol. Mae ganddi gangen Gymreig, a sefydlwyd yn 1852, gyda 15 o aelodau, ysgrifenyddiaeth ddynodedig a thîm materion cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Gymdeithas drwy amrywiaeth eang o sianeli ffurfiol ac anffurfiol. Yn ffurfiol, mae gan y Gymdeithas chwe chynrychiolydd ar Bwyllgor Meddygol Cymru, gyda phob cynrychiolydd yn bwydo safbwyntiau a gwybodaeth i mewn o'i rwydwaith penodol ei hun. Yn fwy anffurfiol, mae is-adrannau polisi penodol IGC yn ymgysylltu yn eu meysydd nhw eu hunain ag aelodau o bob un o wyth is-bwyllgor y Gymdeithas yng Nghymru, sy'n cynrychioli mathau gwahanol o feddygon o fyfyrwyr a staff meddygol, i arbenigwyr a meddygon ymgynghorol.

- **Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol** yw'r corff aelodaeth broffesiynol a'r gwarcheidwad safonau ar gyfer meddygon teulu yn y DU. Mae'r Coleg, sydd â changen yng Nghymru, yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid eraill. Caiff y Coleg ei gynrychioli'n ffurfiol drwy gyfrwng Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru (y mae cysylltiad rhyngddo â Phwyllgor Meddygol Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain) a'r Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar gyfer Meddygon Teulu.

- **Coleg Brenhinol y Radiolegwyr** yw'r corff proffesiynol sy'n gyfrifol am feysydd arbenigol Oncoleg Glinigol a Radioleg Glinigol ledled y Deyrnas Unedig. Mae Pwyllgor Sefydlog Cymru, sy'n cynrychioli'r Coleg yng Nghymru, yn cynnwys radiolegwyr o bob Bwrdd Iechyd ac oncolegwyr clinigol sy'n gweithio yn y tair Canolfan Canser yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn cyfarfod â'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol Iechyd bob blwyddyn ac mae swyddogion y Coleg yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Mae gan y Pwyllgor Sefydlog gynrychiolwyr ar Is-bwyllgorau Oncoleg Glinigol a Delweddu Meddygol Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru, yn ogystal â byrddau cyfadrannau'r Coleg yn Llundain.

- Sefydlwyd **Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru** yn 1999. Mae'n bwyllgor anstatudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni swyddogaeth gynghori. Mae'n cynnwys 18 o Golegau a Chyfadrannau Meddygol Brenhinol sy'n cyfarfod â'r Prif Swyddog Meddygol bob chwarter i roi cyngor ac arweiniad meddygol a deintyddol arbenigol, annibynnol a diduedd mewn perthynas â gofal iechyd yng Nghymru.

- Mae gan **Goleg Brenhinol y Ffisigwyr yng Nghymru** dros 30,000 o aelodau sy'n gweithio mewn ysbytai a chymunedau ledled y byd ac sy'n arbenigo mewn 30 o wahanol feysydd meddygol. Gyda phwyslais ar ddarparu addysg a hyfforddiant parhaus i ffisigwyr,

mae'r Coleg yn ymwneud i ryw raddau â pholisïau yng Nghymru ac mae'n ymgysylltu â byrddau iechyd, ysbytai, cymdeithasau arbenigol a cholegau meddygol eraill.

- **Cymdeithas Ddeintyddol Prydain** yw'r gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer deintyddion yn y Deyrnas Unedig. Mae gan y Gymdeithas gangen Gymreig a Chyfarwyddwr Cenedlaethol i Gymru. Ymgynghorir â'r Gymdeithas ynghylch newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a pholisïau e.e. diwygiadau i'r Rheoliadau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol; y gwaith o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg. Mae'n aelod o nifer o weithgorau, grwpiau llywio a grwpiau gorchwyl a gorffen; e.e. dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru; trefniadau ar gyfer archwilio practisau deintyddol. Caiff y Gymdeithas ei chynnwys ym mhob ymgynghoriad perthnasol. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Prif Swyddog Deintyddol a swyddogion eraill yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod materion fel cyflog a threuliau.

- **Coleg Brenhinol y Bydwragedd** yw'r gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer bydwragedd yn y DU. Mae ganddo gangen yng Nghymru a Chyfarwyddwr i Gymru. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Swyddog Nyrsio yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Roedd y Coleg yn un o'r prif randdeiliaid a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth (2012) a'r broses ddilynol o'i gweithredu yn ystod 2013-14. Disgwylir i'r Weledigaeth honno gael ei diwygio yn 2017 ac mae'r Coleg yn un o'r prif randdeiliaid. Yn 2016, rhoddodd y sefydliad gyngor proffesiynol i'r grŵp rhanddeiliaid a oedd yn datblygu model Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwragedd a bydd yn parhau i fod yn aelod o'r grŵp gweithredu a gwerthuso. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio partneriaeth ar y cyd â'r Coleg i ddatblygu rhaglen arweinyddiaeth Bydwragedd yn 2017/18 a melin drafod arweinyddiaeth i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth darbodus. Caiff y Coleg ei wahodd i roi tystiolaeth i gefnogi cyfarfodydd bwrdd sy'n trafod perfformiad gwasanaethau mamolaeth a ddechreuodd ym mis Ebrill 2013 ac a gynhelir bob chwe mis ac roedd hefyd yn aelod o'r grŵp gweithredu ailddilysu nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Nyrsio, mewn perthynas â goruchwylio bydwragedd yn y dyfodol yn dilyn penderfyniad y rheoleiddiwr i geisio newid deddfwriaeth (roedd y grŵp hwn yn weithredol hyd at fis Ebrill 2016).

- **Coleg Brenhinol y Nyrsys** yw'r brif gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer nyrsys yn y DU. Mae ganddo gangen yng Nghymru a Chyfarwyddwr i Gymru. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Prif Swyddog Nyrsio yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Coleg yn cyfrannu at ymgyngoriadau cyhoeddus a phroffesiynol a gychwynnir gan Lywodraeth Cymru, e.e. yr Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol (2015). Mae Cyfarwyddwr y Coleg hefyd yn aelod o is-grŵp Grŵp Llywio Cartrefi Gofal Llywodraeth Cymru, sef Ffrwd y Gweithlu. Mae'r Coleg yn cynnal dathliad blynyddol ar gyfer Nyrs y Flwyddyn bob mis Tachwedd, lle mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn cyflwyno gwobr a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio hefyd yn mynychu Cyngres Genedlaethol y DU y Coleg Nyrsio Brenhinol lle mae'n siarad â chynrychiolwyr o Gymru i gael syniad o'r problemau a wynebir gan staff rheng flaen.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** yw'r corff sy'n cynrychioli'r trydydd sector yng Nghymru. Mae Gweinidogion IGC yn cyfarfod â'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod o amgylch bwrdd. Mae gwaith ymgysylltu penodol y Grŵp IGC yn cynnwys

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Chynllun Gweithredu Adrannol y Trydydd Sector. Mae grwpiau trydydd sector penodol hefyd yn aelodau o'u Grwpiau Gweithredu cysylltiedig ar gyfer Prif Gyflyrau Iechyd. Yn ogystal, yn 2015-16 a 2016-17, rhoddwyd gwerth £15,000 a £10,000 o arian grant i'r Cyngor, ar ran y Gynghrair Iechyd a'r Gynghrair Gofal Cymdeithasol (yn y drefn honno), er mwyn cefnogi'r gwaith o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn, anfonodd hefyd gynrychiolwyr i'r Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r Cyngor yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, olynydd y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Ym mis Rhagfyr 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at gynrychiolwyr y trydydd sector i annog gwaith ymgysylltu mwy cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector ar lefel swyddogion, a chynigiodd y dylid cynnal cyfarfodydd chwarterol er mwyn trafod blaenoriaethau strategol a chyflwyno rhaglen weithredu ar y cyd.

- Rôl **Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**, a gadeirir gan Lefarydd Gwleidyddol CLlLC dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yw cynghori CLlLC. Mae ei aelodau'n cynnwys yr aelod cabinet dros wasanaethau cymdeithasol o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â'r Grŵp ddwywaith y flwyddyn ar lefel Cymru gyfan i drafod y modd y gweithredir polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, fel y'i nodir yn *'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'*.

- **Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Cymru** (BASW Cymru) yw'r sefydliad proffesiynol sy'n cynrychioli gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'n rhan hanfodol o Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain. Lansiodd Gweinidogion Wobrau Gwaith Cymdeithasol BASW Cymru 2015 a 2016. Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr BASW Cymru yn aelodau o Banel Cynghori Cyfnod Pontio Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae swyddogion polisi hefyd wedi cyfarfod ag aelodau BASW Cymru fel rhan o ymarfer parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r materion sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu haelodau.

- Mae **Fforwm Gofal Cymru** yn cynrychioli dros 450 o gartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol ledled Cymru ac mae'r cadeirydd a swyddogion yn cyfarfod â Gweinidogion ac uwch swyddogion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yn 2015-16, cafodd Fforwm Gofal Cymru ei gefnogi i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Yn benodol, er mwyn cefnogi gwaith ymgysylltu mewn perthynas â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymhellach, cafodd Fforwm Gofal Cymru werth £15,000 o arian grant gan Lywodraeth Cymru yn 2015-16 i'w alluogi i gyfrannu at y grwpiau technegol, a thrwy hynny gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol sy'n ategu'r Ddeddf a chynhyrchu a lledaenu gwybodaeth ddefnyddiol i'w aelodau am y Ddeddf. Yn ystod y cyfnod hwn, bu hefyd yn cynrychioli buddiannau darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol ar y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon,

caiff Fforwm Gofal Cymru ei gynrychioli ar y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, olynydd y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** yw'r sefydliad arweinyddiaeth broffesiynol a strategol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n gyflogwyr blaenllaw ym maes gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae Gweinidogion, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn cyfarfod â'r Gymdeithas yn rheolaidd i drafod y modd y gweithredir polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, fel y'i nodir yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* a hefyd, erbyn hyn, yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Symud Gofal Cymdeithasol Ymlaen*. Yn ogystal, yn 2015-16 a 2016-17, cafodd y Gymdeithas werth £200,000 a £150,000 o arian grant (yn y drefn honno) i gefnogi'r gwaith o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith.

- Gofynnwyd i aelodau **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** roi sylwadau ar delerau ac amodau ar gyfer Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol sydd wedi'i gynllunio i helpu'r sector i reoli goblygiadau'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Nod yr ymgynghoriad anffurfiol oedd sicrhau bod yr egwyddorion yn gymesur a'u bod yn gallu dangos yn glir bod yr arian wedi helpu i wella telerau ac amodau'r gweithlu. Gan ddefnyddio'r adborth a roddwyd, llwyddodd swyddogion i sicrhau y byddai'r grant yn rhoi tystiolaeth ynghylch y ffordd y cafodd yr arian ei ddefnyddio ac eglurhad ei fod wedi'i ddefnyddio i gyflawni amcanion Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r arian grant.

## GWEITHGAREDD – YMGYSYLLTIAD PENODOL Y GRŴP IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL Â BUSNES A'R DIWYDIANT

### Is-adran Ymchwil a Datblygu – Yr Adran Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (DSCHR) a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) gynt

Aethpwyd ati i ailstrwythuro DSCHR yn 2014/15 er mwyn ail-alinio'r seilwaith ymchwil a chanolbwyntio ar fuddsoddi mewn meysydd y mae Cymru yn rhagori ynddynt ac sy'n unigryw i Gymru.

Yr **Is-adran Ymchwil a Datblygu** yw is-adran Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad polisi ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru. Mae'r Is-adran yn ariannu **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**, sef sefydliad rhithwir amlochrog cenedlaethol sy'n cynnwys sawl elfen benodol.

Mae **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** yn cefnogi ac yn datblygu gwaith ymchwil ardderchog sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd, llesiant a ffyniant pobl Cymru ac sy'n darparu'r seilwaith i gefnogi a chynyddu capasiti ymchwil a datblygu. Mae'r seilwaith

hefyd yn sicrhau bod modd canolbwyntio'n fwy penodol ar y meysydd y mae Cymru yn rhagori ynddynt ar hyn o bryd a meysydd rhagoriaeth sy'n dod i'r amlwg. Yn ei dro, mae'r gwaith ymchwil hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau.

Cyn i'r gwaith ailstrwythuro fynd rhagddo, roedd Ymchwil Iechyd Cymru yn rhoi gwybodaeth a chymorth i gwmnïau gwyddorau bywyd a oedd am ymgymryd â gwaith ymchwil clinigol yng Nghymru. Fel rhan o'r adolygiad o NISCHR, caiff gwasanaethau a ddarparwyd o dan frand Ymchwil Iechyd Cymru yn flaenorol eu darparu o fewn seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae'r newid hwn yn adeiladu ar y gwaith llwyddiannus a wnaed eisoes drwy ffrwd diwydiant Ymchwil Iechyd Cymru ac mae'n ymgorffori'r un swyddogaethau a'r ddarpariaeth gwasanaethau ardderchog y mae rhanddeiliaid diwydiant wedi dod i'w disgwyl. Caiff Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ei gefnogi gan uwch reolwyr diwydiant sy'n gweithio gyda sefydliadau ymchwil a datblygu'r GIG i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer gwaith ymchwil clinigol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys un dull o gydgysylltu datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau fferyllol ac ymchwil glinigol byd-eang yn y DU a fydd yn gwella'r siawns y gall cleifion yng Nghymru gymryd rhan mewn rhaglenni canfod cyffuriau byd-eang.

- **Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl.** Gweithiodd y tasglu Genomeg gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys **AstraZeneca, Bristol Myers-Squibb, ABPI Cymru Wales, Intel Corporation, Genetic Alliance UK, MSD, Roche Diagnostics, GlaxoSmithKline, Nantworks a Genomics PLC**, i ddatblygu'r Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl a sicrhau ei bod yn cael ei llywio gan yr amrywiaeth ehangaf posibl o randdeiliaid o'r cychwyn cyntaf.

- Mae aelodaeth y **Cydbwyllgor Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru (y Cydbwyllgor)** yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr Cymdeithas Feddygol Prydain. Diben y Cydbwyllgor yw cynnal adolygiadau systemataidd o'r Diwygiad i'r Contract Meddygon Ymgynghorol Cenedlaethol yng Nghymru a'r modd y'i gweithredwyd hyd yma a darparu canllawiau diffiniol cytûn i bob parti ar y modd y dylid dehongli'r Diwygiad, unrhyw gytundeb â'r Cydbwyllgor sy'n deillio ohono a'r broses o'i weithredu yn y dyfodol. Mae'r Cydbwyllgor, sy'n cyfarfod yn chwarterol i drafod materion perthnasol sy'n effeithio ar gontract meddygon ymgynghorol yng Nghymru, wedi cyfarfod yn flaenorol i drafod y trefniadau ar gyfer newid y gyfradd milltiredd ar gyfer staff meddygol a deintyddol a dull o ddiweddaru llawlyfr meddygol a deintyddol Cymru 2003. Mae hefyd wedi bod yn gyfrwng i ymgysylltu'n gadarnhaol ag undeb llafur sy'n cynrychioli'r gweithlu meddygol a deintyddol cyfan, cadw mewn cysylltiad â'r gweithlu hwnnw a darparu gwybodaeth a chyngor ar bolisïau neu newidiadau sy'n debygol o effeithio ar staff meddygol a deintyddol. Mae'n hanfodol bod cydberthynas gadarnhaol yn cael ei meithrin â Chyngor Meddygol Prydain er mwyn sicrhau bod y gweithlu meddygol a deintyddol yng Nghymru yn cael ei gynrychioli'n llawn a'i fod yn gallu lleisio barn ar y newidiadau a wneir i'w delerau ac amodau.

- **Hyrwyddo cydweithio rhwng GIG Cymru a'r Diwydiant** – mae swyddogion Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi cefnogi gwaith ymgysylltu rhwng GIG Cymru a nifer o bartneriaid yn y diwydiant ac maent wrthi'n datblygu Fframwaith Ymgysylltu â'r Diwydiant

ar gyfer y GIG yng Nghymru a fyddai'n pennu egwyddorion a thelerau ymgysylltu cyffredinol ar gyfer gweithio gyda'r diwydiant. Mae Dr Andrew Goodall hefyd wedi hyrwyddo prosiectau rhwng y GIG a'r diwydiant yn bersonol ac wedi gwneud datganiadau cyhoeddus ynghylch GIG Cymru yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant mewn nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus gan gynnwys **BioCymru** a **chynhadledd Cydweithredu'r GIG**. Mae swyddogion wedi bod wrthi'n datblygu a chyflwyno mentrau newydd ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant, fel rhaglen **Enghreifftiau o Dechnoleg Iechyd Comisiwn Bevan**, sy'n ôl-lenwi amser clinigwyr i weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i dreialu technolegau newydd, arloesol ym maes iechyd.

- Mae gwaith ymgysylltu rhwng y GIG a'r diwydiant wedi'i gynnwys hefyd mewn meini prawf newydd ar gyfer statws **Bwrdd Iechyd Prifysgol**, a hyrwyddwyd y gwaith hwn ymhellach drwy'r adolygiad teirblwydd cyntaf o weithgarwch Byrddau Iechyd Prifysgol a gynhaliwyd yn 2016. Caiff gwaith ymgysylltu pellach gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys y diwydiant, ei gefnogi ymhellach drwy adrannau **Cynlluniau Tymor Canolig Integredig GIG Cymru** sy'n galluogi gweithgarwch arloesi.

- Mae Grŵp o **Swyddogion Gwyddorau Bywyd ac Iechyd** trawsadrannol yn cyfarfod bob deufis i rannu gwybodaeth a chysoni polisïau'r llywodraeth. Mae'r grŵp hwn, a gaiff ei gadeirio gan uwch swyddog iechyd, yn cynnwys cynrychiolaeth gref o adran yr economi, gan gynnwys Cynghorwyr Gwyddorau Bywyd ac Arloesi a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol.

- Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus i'r diwydiant, mae'r Grŵp IGC yn parhau i weithio mewn nifer o feysydd gyda **MediWales**, y fforwm sy'n cynrychioli'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, a chydag **ABPI Cymru Wales**. Mae'r gwaith a wnaed wedi helpu i lunio polisïau a gwella'r dirwedd ymchwil ac arloesi ar gyfer y cwmnïau a gynrychiolir ganddynt. Cynhaliodd MediWales nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2015/16 a gefnogodd nodau polisi i ysgogi mwy o waith ymgysylltu rhwng GIG Cymru a'r diwydiant, gan gynnwys digwyddiad blynyddol newydd o'r enw "MediWales Connects" sy'n canolbwyntio'n unswydd ar waith ymgysylltu rhwng y GIG a'r diwydiant.

- Mae'r Grŵp IGC, sy'n aelod llawn o **Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**, wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau â thema iechyd ar ei safle, o gyfarfodydd i drafod polisïau penodol i ymweliadau gan y diwydiant â chyfarfodydd Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru. Mae pob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn aelodau o Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Mae **Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru (y Pwyllgor)** wrthi'n llunio cyngor i Lywodraeth Cymru ar rôl therapïau yn y sector gofal sylfaenol, sy'n cynnwys proffesiynau dan gontract yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a sut y gallant fynd ati i ymgysylltu ag Ymarfer Meddygol er mwyn darparu gwasanaethau clinigol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth drwy glystyrau gofal sylfaenol. Ymhlith yr enghreifftiau o adroddiadau polisi diweddar mae adroddiad sy'n trafod cyfraniad ffisiotherapi at wasanaethau a ddarperir yn y gymuned ac adroddiad sy'n trafod cynnydd therapi galwedigaethol iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â datblygu gwasanaethau integredig. Caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar y Pwyllgor drwy arweinwyr polisi ac ysgrifenyddiaeth y pwyllgor.

- Mae **Fforwm Gofal Cymru** yn cynrychioli dros 450 o gartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol ledled Cymru ac mae'r cadeirydd a swyddogion yn cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac uwch swyddogion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Fforwm wedi'i gefnogi i ymgysylltu â

Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Mae'r Fforwm yn cynrychioli buddiannau darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol drwy'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, a gadeirir gan Gwenda Thomas AC, y cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn cefnogi gwaith ymgysylltu mewn perthynas â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymhellach, cafodd Fforwm Gofal Cymru werth £10,000 o arian grant gan Lywodraeth Cymru yn 2014-15 i'w alluogi i gyfrannu at y grwpiau technegol, a thrwy hynny gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol sy'n ategu'r Ddeddf a chynhyrchu a lledaenu gwybodaeth ddefnyddiol i'w aelodau am y Ddeddf.

- Er mwyn atgyfnerthu'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar *tranche* 1 o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), aeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod **Fforwm Gwasanaethau Cymdeithasol UNSAIN** i drafod goblygiadau'r Ddeddf ar gyfer y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol.

- Enghraifft arall yw'r gwaith ymgysylltu sy'n mynd rhagddo â'r diwydiant alcohol drwy **Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru (y Rhwydwaith)** a sefydlwyd yn bennaf i gynorthwyo manwerthwyr diodydd yng Nghymru i chwarae eu rhan wrth helpu'r diwydiant alcohol i gyflawni'r addewidion Cyfrifoldeb Iechyd y Cyhoedd. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithredu fel fforwm lle y gall y Llywodraeth a'r Diwydiant gyfnewid gwybodaeth a chydweithio er mwyn mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

- Cafodd y **Grŵp Llywio Cartrefi Gofal** ei sefydlu yn 2015 i ystyried materion a oedd yn gysylltiedig â chau nifer o gartrefi gofal a sicrhau bod y sector cartrefi gofal yng Nghymru yn addas ar gyfer yr 21[ain] Ganrif ac yn cefnogi'r rheini sydd angen gofal i fyw fel y mynnant, gyda'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Caiff ei gefnogi gan nifer o ffrydiau gwaith ac mae'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, darparwyr gofal gan gynnwys **Fforwm Gofal Cymru** a'r trydydd sector. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grŵp IGC wedi gweithredu nifer o'r argymhellion a wnaed yn sgil Adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn o Gartrefi Gofal. Er enghraifft, mae wedi cyhoeddi canllawiau arfer gorau i ddarparwyr ac, yn ddiweddar, gofynnodd i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol fynd ati i ddadansoddi'r farchnad cartrefi gofal. Mae'r Grŵp Llywio wrthi'n pennu methodolegau cadarn ar gyfer lefelau ffioedd cartrefi preswyl. Bydd y gwaith hwn yn helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd i nodi'r cydbwysedd rhwng y gwasanaethau a ddarperir a'r galw amdanynt a'r ffioedd priodol er mwyn sicrhau y gall darparwyr roi gofal o safon uchel.

- Mae'r **naw grŵp gweithredu ar gyfer y Prif Gyflyrau Iechyd** yn 'eiddo' i'r GIG ac yn atebol (drwy eu Cadeiryddion) i Brif Weithredwr GIG Cymru. Caiff pob grŵp ei redeg gan y GIG a chaiff unrhyw bolisi ar gydweithio â phartneriaid cymdeithasol a mesurau i gefnogi'r gwaith hwnnw; trefniadau ar gyfer cynnal deialog effeithiol â phartneriaid cymdeithasol ac ymgynghori'n effeithiol â nhw; a threfniadau i adolygu'r modd y caiff Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ei weithredu, eu pennu gan Gadeirydd ac aelodau'r grwpiau yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

## GWEITHGARWCH – Y BROSES DDEDDFWRIAETHOL

**Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017**

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Tachwedd 2016

Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Tachwedd 2016.

Roedd y Bil yn cynnwys darpariaethau mewn nifer o feysydd polisi iechyd y cyhoedd, gan gynnwys tybaco a chynhyrchion nicotin, rheoleiddio gweithdrefnau arbennig fel tyllu'r corff a thatŵio, asesiadau o'r effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol a chynlluniau i ddarparu toiledau cyhoeddus.

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016 ar Gam 1. Ymhlith y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd roedd ymatebion gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli buddiannau busnes gwahanol fel Japan Tobacco International, Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd a'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra. Mae diddordeb cynrychiolwyr busnes yn y ddeddfwriaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaethau i sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru.

**Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Amserlen: Cyflwynwyd Cam 2 o'r Bil ar 14 Gorffennaf gan basio proses graffu ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2015/dechrau 2016.

Wrth fynd ati i ddatblygu'r polisi ar gyfer y Papur Gwyn a'r Bil Drafft, cynhaliodd tîm y Polisi/Bil gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a gweithdai technegol â rhanddeiliaid gan gynnwys **Fforwm Gofal Cymru**, **Cymdeithas Gofal Cartref y DU** (sy'n cynrychioli dros 2,000 o ddarparwyr gofal cartref yn y sector annibynnol, gwirfoddol, nid er elw a statudol ledled y DU) a nifer o fusnesau (gan gynnwys **HC One Healthcare, Glasallt Fawr, Perthyn, Linc Cymru, Cartrefi Plant Afon Goch Cyf, Highbury Care Services, Integra Community Living Options, Cartref Gofal Quarry Hall, Bluebird Care (Casnewydd), ND Care and Support, Ludlow Strett Healthcare, Tros Gynnal Plant, Steddy Ltd, Cartrefi Gofal Leonard Cheshire** a **Michael Phillips Care Agency Ltd**).

**Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Rhwng 28 Mehefin a 20 Medi 2016, bu nifer o Reoliadau drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r cam gweithredu cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion y bwriadwyd iddynt: gyflwyno system newydd ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu o dan y Ddeddf (Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn gyfrifol am hyn o fis Ebrill 2017); rhoi rhai o'r prosesau allweddol sy'n ategu system newydd o reoleiddio gwasanaethau o dan y Ddeddf ar waith (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fydd yn gyfrifol am hyn o fis Ebrill 2018) a phrofi diffiniad o wasanaethau eirioli a reoleiddir at ddibenion y Ddeddf.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, rhoddodd swyddogion wybod i randdeiliaid am y cynigion a chynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori cenedlaethol er mwyn helpu i lywio ac annog ymatebion. Denodd y digwyddiadau hyn gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol a oedd â diddordeb yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Yn ei dro, derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Gyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Fforwm Gofal Cymru a Chymdeithas Gofal Cartref y DU (sy'n cynrychioli dros 2,000 o ddarparwyr gofal cartref o'r sector annibynnol, gwirfoddol, nid er elw a statudol ledled y DU), ymhlith eraill. Cafwyd ymatebion cynrychioliadol gan Gyngor Sir y Fflint hefyd ar ran 19 o ddarparwyr cartrefi gofal ac 16 o ddarparwyr gofal cartref yn ei ardal.

Hefyd, yn ystod hydref 2016, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd grŵp technegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Rheoliadau drafft fel rhan o'r ail gam gweithredu. Mae'r rheoliadau drafft hyn – a fydd yn destun ymgynghoriad rhwng 2 Mai a 25 Gorffennaf 2017 – yn gosod gofynion ar ddarparwyr (ac Unigolion Cyfrifol) Gwasanaethau Rheoleiddiedig yng ngham dau, sef gofal preswyl i oedolion a phlant; gofal cartref i oedolion a phlant a Chanolfannau Preswyl i Deuluoedd. Caiff darparwyr gwasanaethau eu cofrestru, a'u harchwilio maes o law, yn erbyn gofynion AGGCC o fis Ebrill 2018. Ymhlith y sefydliadau hynny a gymerodd ran yn y grwpiau technegol roedd cyrff cynrychioliadol a chwmnïau preifat, gan gynnwys Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Fforwm Gofal Cymru, Cymdeithas Gofal Cartref y DU, UNSAIN, Integra Community Living; Bethel Healthcare; Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol a HC One.

Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn, cysylltwyd â darparwyr gwasanaethau preifat yn y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref, a chymerodd llawer ohonynt ran yn y digwyddiadau a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth fel rhan o'i gweithgarwch gweithredu mewn perthynas â'r Ddeddf.

Yn ddiweddar, wrth fynd ati i ddrafftio'r rheoliadau ynghylch amser teithio a chontract dim oriau, cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr **Cymdeithas Gofal Cartref y DU** ac **Unsain** i drafod y cyfeiriad polisi a cheisio eu barn; gwnaeth hyn helpu swyddogion i lunio polisïau a llywiodd reoliadau drafft sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gwelwyd ymgysylltu tebyg â chynrychiolwyr o'r sector drwy grwpiau technegol a drafododd ofynion posibl ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau, gan lywio rheoliadau drafft sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd swyddogion y Grŵp IGC gyfarfodydd rhanddeiliaid â **Chymdeithas Gofal Cartref y DU** fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff gofal cartref. Cymerodd **Fforwm Gofal Cymru, Cymdeithas Gofal Cartref y DU** ac **Unsain** ran yn yr ymgynghoriad, gan roi ymatebion ffurfiol a ystyriwyd wrth fynd ati i ddadansoddi'r ymatebion.

## GWEITHGARWCH - DATBLYGU POLISI

Mae'r **Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Gweithlu Gofal Sylfaenol** yn gyfrifol am oruchwylio ymrwymiad y Prif Weinidog i gyflwyno cynlluniau i recriwtio a hyfforddi mwy o

feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol. Mae'r tasglu'n cynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (Cymdeithas Feddygol Prydain), y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol.

**Iechyd y Cyhoedd**

Mae is-adran Iechyd y Cyhoedd yn mynd ati'n rheolaidd i geisio barn sefydliadau busnes a phartneriaid cymdeithasol wrth ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd. Er enghraifft, aeth y tîm sy'n gyfrifol am Ddeddf a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ati i geisio barn cynrychiolwyr o'r diwydiant bwyd mewn perthynas ag ymgynghoriad ar reoliadau hylendid bwyd drafft, gan gynnwys cyfathrebu'n uniongyrchol â thros 2,500 o fusnesau tecawê yng Nghymru. Ymhlith y cynrychiolwyr o'r diwydiant a ymatebodd roedd **Sainsbury's PLC, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cynghrair Twristiaeth Cymru** a **Chonsortiwm Manwerthu Cymru** yn ogystal â nifer o berchenogion busnesau bwyd bach. Cafodd y rheoliadau drafft eu diwygio ar sail rhai o'r ymatebion gan y diwydiant bwyd, a byddant yn destun ymgynghoriad pellach yn ddiweddarach yn 2015.

Caiff amrywiaeth o raglenni **Cymru Iach ar Waith** eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u cyflwyno gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y rhaglenni hyn yw gwella iechyd a lles yn y gwaith, lleihau effaith salwch yn y gwaith, gan gynnwys iechyd meddwl, ac annog ymyriadau cynnar er mwyn adsefydlu'r rhai sydd wedi mynd yn sâl neu sydd wedi cael anaf, drwy weithio gyda chyflogwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol ac unigolion. Caiff cyflogwyr gymorth a chyngor i ddatblygu mentrau iechyd, llesiant a diogelwch yn y gweithle, drwy'r Safon Iechyd Corfforaethol a Gwobr Iechyd y Gweithle Bach, ar gyfer pob ymddygiad risg (er enghraifft, alcohol, gweithgarwch corfforol, maeth a smygu) gyda'r nod o leihau anhwylderau meddyliol a chyhyrysgerbydol.

Mae'r cymorth a gynigir drwy Cymru Iach ar Waith wedi'i ymestyn i gynnwys gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (rhaglen 2014-2020). Mae Cymorth yn y Gwaith yn darparu mynediad cyflym i ymyriadau cynnar sy'n canolbwyntio ar waith, gan gynnwys ffisiotherapi, therapi seicolegol a therapi galwedigaethol, gyda'r nod o helpu cyflogeion sydd wedi bod yn absenoldeb oherwydd salwch ers cyfnod hir neu sy'n wynebu risg o'r cyfryw absenoldeb i aros yn y gwaith, neu ddychwelyd i'r gwaith yn gynt nag a fyddai'n bosibl heb yr ymyriad.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu mewn partneriaeth â Strategaeth Dinas Y Rhyl (Menter Gymdeithasol) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg a'i gefnogi gan:

- **4232** o bobl sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith
- **525** o fentrau
- Gweithleoedd drwy **130** o raglenni yn y gweithle.

**Arferion a Datblygiadau Cyflogaeth, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**

Mae nifer o grwpiau yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a llywio polisïau'n ymwneud â'r gweithlu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae **Fforwm Partneriaeth Cymru (y Fforwm)** yn grŵp allweddol sy'n rhoi arweinyddiaeth ar strategaethau cydweithio rhwng cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogeion. Mae hefyd yn ymwneud â phob agwedd ar

weithredu strategol gan gynnwys cynllunio; addysg; recriwtio; cadw; datblygu a chefnogi staff GIG Cymru. Mae'r Fforwm hefyd yn comisiynu'r gwaith o ddatblygu polisïau Cymru gyfan pan fo cytundeb Agenda ar gyfer Newid y DU yn rhoi'r disgresiwn i wneud hynny ac, yn y gorffennol, mae wedi datblygu'r polisïau canlynol – Urddas yn y Gwaith, Codi Pryderon, Absenoldeb Arbennig, Protocol Talu Recriwtio a Chadw, Hyfforddi a Byddino Lluoedd Wrth Gefn, Secondio, Galluogrwydd, Absenoldeb oherwydd Salwch, Cwynion Cyflogaeth, Seibiant o Weithio, Datblygiad Cyflog ar gyfer staff Agenda ar gyfer Newid, Polisi Disgyblu (ar gyfer cyflogeion y tu allan i'r byd meddygol a deintyddol), Newid Sefydliadol a Defnyddio Cytundebau Setlo a Chymalau Cyfrinachedd. Unwaith y cânt eu cymeradwyo, disgwylir i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru fabwysiadu a gweithredu'r polisïau gwaith hyn, a'u hadolygu neu eu datblygu'n gyfnodol.

**Y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio**

Drwy Fwrdd Cenedlaethol a Byrddau arbenigeddau a arweinir gan glinigwyr, mae'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys **Byrddau iechyd, arweinwyr y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol, arweinwyr clinigol, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Cymdeithas Feddygol Prydain, Cynghorau Iechyd Cymuned, sefydliadau trydydd sector** a **chynrychiolwyr cleifion** er mwyn sicrhau bod y polisïau a'r cynlluniau a ddatblygir ar gyfer y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn cael eu llywio gan y grŵp ehangaf posibl o randdeiliaid a bod modd cynnwys arfer gorau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y meddylfryd presennol.

**Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.** Fframwaith Cynllun Oes: Adeiladu ar gyfer Cymru yw fframwaith caffael a chyflawni gwaith adeiladu GIG Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Mae'r fframwaith hwn, sydd wedi bod yn weithredol ers 2006, yn seiliedig ar dair egwyddor sylfaenol sef cadwyni cyflenwi integredig, cydweithio a gwelliant parhaus. Aethpwyd ati i ymgynghori â'r GIG yng Nghymru a'r diwydiant adeiladu yng Nghymru cyn dechrau'r broses gaffael. Mae proses ProCure 21 y GIG yn safoni'r broses o gaffael cyfleusterau gofal iechyd drwy feithrin cydberthnasau hirdymor â chadwyni cyflenwi a ddewisir yn ofalus sy'n gallu gweithio gyda chleientiaid y GIG o gamau cyntaf cynllun nes y cyflwynir y cyfleusterau gofal iechyd terfynol.

| GWEITHGAREDD – YMGYNGORIADAU |
| --- |

**Ymgyngoriadau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2015 a mis Rhagfyr 2016.**

Cynhaliodd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 22 o Ymgyngoriadau yn ystod y cyfnod hwn neu'n gorgyffwrdd â'r cyfnod hwn:

- YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL NEWYDD AR GYFER ANHWYLDERAU'R SBECTRWM AWTISTIG – 1 RHAGFYR 2016
- GWEITHREDU CAM 1 DEDDF RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2016 – 22 TACHWEDD 2016
- Y GWEITHLU GOFAL CARTREF – 17 TACHWEDD 2016

- BIL DRAFFT IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS ALCOHOL) – 9 TACHWEDD 2016
- SAFONAU'R GYMRAEG – GWELLA GWASANAETHAU I SIARADWYR CYMRAEG YN Y SECTOR IECHYD – 15 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 10 (CWYNION, SYLWADAU A GWASANAETHAU EIRIOLI) Y DDEDDF – 12 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R CANLLAWIAU STATUDOL MEWN PERTHYNAS Â RHAN 9 (CYDWEITHREDU A PHARTNERIAETH) Y DDEDDF – 12 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 6 (PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA) Y DDEDDF – 12 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 3 (ASESU) A RHAN 4 (DIWALLU ANGHENION) – 12 HYDREF 2016
- FFRAMWAITH AR GYFER RHEOLI ECONOMI'R NOS YNG NGHYMRU – 12 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 2 O'R DDEDDF – 11 HYDREF 2016
- DIWYGIAD I ORCHYMYN YMDDIRIEDOLAETH GIG FELINDRE (SEFYDLU) 1993 A (2) RHEOLIADAU NEWYDD ARFAETHEDIG I SEFYDLU PWYLLGOR GWASANAETHAU A RENNIR YMDDIRIEDOLAETH GIG FELINDRE – 11 HYDREF 2016
- CYNIGION I DDIWYGIO MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL BWRDD YMDDIRIEDOLAETHAU GIG IECHYD CYHOEDDUS CYMRU – 5 HYDREF 2016
- COD YMARFER AR RÔL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O DAN RAN 8 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – 5 HYDREF 2016

- DIWYGIO COD YMARFER CYMRU AR GYFER DEDDF IECHYD MEDDWL 1983 – 5 HYDREF 2016
- RHEOLIADAU GOFAL A CHYMORTH (METHIANT BUSNES) (CYMRU) 2015 A RHEOLIADAU GOFAL A CHYMORTH (DARPARU GWASANAETHAU IECHYD (CYMRU) 2015, SY'N DEILLIO O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – 5 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 11 O'R DDEDDF – 3 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R CANLLAWIAU STATUDOL MEWN PERTHYNAS Â RHAN 7 (DIOGELU) Y DDEDDF – 3 HYDREF 2016
- GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – YMGYNGHORIAD AR Y RHEOLIADAU A'R COD YMARFER MEWN PERTHYNAS Â RHAN 5 (CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL) O'R DDEDDF – 3 HYDREF 2016
- CANLLAWIAU DRAFT AR GYFER GWASANAETHAU CWNSELA AWDURDODAU LLEOL A GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (CAHMS) AR GYDWEITHIO – 28 MEDI 2016
- PAPUR GWYRDD: EIN HIECHYD, EIN GWASANAETH IECHYD – 13 MEDI 2016
- YMGYNGHORIAD AR DDIWYGIO'R DULL O ARDYSTIO MARWOLAETHAU – 14 MEHEFIN 2016
- YMGYNGHORIAD AR LAW YN LLAW AT IECHYD MEDDWL - CYNLLUN CYFLAWNI 2016-2019 – 3 EBRILL 2016

**Y Papur Gwyrdd – Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd**

Roedd y papur ymgynghori hwn yn amlinellu'r systemau presennol sy'n cefnogi ansawdd a threfniadau llywodraethu yn y GIG yng Nghymru ac yn ceisio barn ar yr hyn y gellir ei wneud i wella, gan gynnwys defnyddio deddfwriaeth o bosibl drwy ailystyried y strwythurau sefydliadol a llywodraethu cyfredol a roddwyd ar waith ar ôl y diwygiadau mawr diwethaf i'r sector iechyd yn 2009. Roedd y papur hefyd yn llywio'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, arweinyddiaeth yn y GIG yng Nghymru a rôl adborth cleifion, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Tachwedd 2015.

**Y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio**

Fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach, mae datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer arbenigeddau a chynghreiriau allweddol drwy ymgyngoriadau wedi chwarae rôl bwysig o

ran sicrhau bod barn y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid yn cael ei chefnogi wrth iddynt gymryd rhan mewn/cyfrannu at drafodaethau ynghylch cynaliadwyedd gofal wedi'i gynllunio.

Yn ogystal â rhai o'r cynghreiriau allweddol a nodir isod a'r gweithgareddau ymgysylltu parhaus a gynhelir gan fyrddau rhaglenni a byrddau arbenigeddau, mae dau fwrdd penodol wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cynlluniau gweithredu fel PROMs, PREMs, prosiect effeithlonrwydd a rhaglen cleifion allanol.

- Cydgynhyrchu Cymru
- Prosiect Rhwydwaith Meincnodi'r GIG
- Rhaglen QuEST NHS Scotland
- British Airways Maintenance Cardiff (BAMC)
- Coleg Brenhinol y Llawfeddygon
- Ysgol Feddygaeth Caerdydd
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
- Mesur Ysgogi Cleifion
- Cynghrair Orthopedig Arbenigol (SOA)
- Cyfathrebu ym maes gofal iechyd
- Yr Athro Richard Osborne a'r tîm ym Mhrifysgol Deakin, Awstralia
- Patients Knows Best
- Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y croen a'r llygaid
- Skin Care Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- 1000 o Fywydau